**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** **ARD-16-02(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 27 Tachwedd |
| **Amser:** | 9.15am hyd 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Yn bresennol* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Tony Edwards | Y Prif Swyddog Milfeddygol |
| Colin Williams | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Gareth Jones | Is-adran Rheoli'r PAC |
| Alan Starkey | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Bob Evans | Yr Is-adran Gynllunio |
| Huw Davies | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Dr Mike Christie | Sefydliad Astudiaethau Gwledig |

| | |
|---|---|
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cafodd Ron Davies ei ethol yn gadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 8.17.

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Glyn Davies.

1.2 Datganodd Ron Davies fuddiant fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Coetiroedd Caerffili mewn perthynas ag eitem yn adroddiad y Gweinidog .

**Eitem 2: Comisiwn Richard: ARD 16-02(p1)**

2.1 Gofynnodd y Pwyllgor am un newid bach i'r papur i egluro mai cyflwyniad y Cadeirydd oedd hwn, ac nid cyflwyniad y Pwyllgor cyfan. Awgrymodd Aelodau y dylai'r Pwyllgor gytuno ar gyflwyniad ar wahân yn canolbwyntio ar bwerau yn y portffolio Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac effaith aelodaeth y Gweinidog o'r Pwyllgor o ran craffu. Cytunodd Cynog Dafis i drafod â'r Clerc sail cyflwyniad y Pwyllgor, a byddai hynny'n cael ei drafod ar agenda'r Pwyllgor rhywbryd yn y dyfodol.

**Pwynt Gweithredu**

Bydd Cynog Dafis yn trafod â'r Clerc y sail ar gyfer cyflwyniad y Pwyllgor, a bydd hynny'n cael ei drafod ar agenda'r Pwyllgor rhywbryd yn y dyfodol – **Cynog Dafis, Ysgrifenyddiaeth.**

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog: ARD 16-02(p2)**

3.1 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai'n mynychu cyfarfod y Cyngor Amaethyddiaeth ar 29 Tachwedd a'i fod yn bwriadu trafod manylion adolygiad canol tymor y PAC â'r Comisiynydd Franz Fischler.

***Cyfyngiadau ar symud anifeiliaid***

3.2 Roedd disgwyl i'r rheoliadau sy'n cyfyngu ar symud da byw ddod i ben ar 20 Ionawr. Byddai safbwynt y Gweinidog o ran y rheoliadau newydd yn dibynnu ar gyngor gwyddonol a milfeddygol yn ogystal â phryderon y diwydiant am yr effaith ar fasnachu. Roedd y Gweinidog yn bwriadu gweld y drefn symud anifeiliaid ar waith yn yr Alban hefyd.

***Allforio anifeiliaid byw***

3.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y ddeddfwriaeth sy'n rheoli allforio anifeiliaid byw ar hyn o bryd, yn sgil cyhoeddi'r Nodyn Gwybodaeth i Gwsmeriaid yn ddiweddar.

***Cig Eidion Cymru - statws PGI***

3.4 Gofynnwyd am eglurhad ynghylch rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru a rôl Welsh Lamb and Beef Promotion (WLBP) o ran cael achrediad Nod Gwarant Ardal (PGI) y Comisiwn Ewropeaidd i Gig Eidion Cymru. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi'r cais, a wnaed gan WLBP, o'r cychwyn cyntaf, yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd. Y gobaith oedd cael achrediad tebyg i gig oen Cymru ond doedd hynny ddim yn debygol o ddigwydd am rai misoedd.

***Corff newydd arfaethedig ar gyfer cig coch***

3.5 Mynegodd yr Aelodau bryder am gyfansoddiad Bwrdd y corff newydd arfaethedig ar gyfer cig coch. Yn benodol, roedd dogfen a gyflwynwyd gan y Comisiwn Cig a Da Byw, *Memorandum of Association and Articles*, yn awgrymu bwrdd o 15 aelod, a mwyafrif yr hawliau pleidleisio yn nwylo'r MLC ac Awdurdod Datblygu Cymru. Nododd y Pwyllgor bod cynigion y ddogfen drafod hon wedi'i diystyru gan bartneriaid y corff newydd arfaethedig ac y byddent yn cael eu hadolygu.

***Mewnforio cig yn angyfreithlon***

3.6 Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno papur i'r Pwyllgor, ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Cig Eidion, ar fesurau'r UE i fynd i'r afael â chig ymyrraeth sy'n cynnwys Deunydd Risg Penodol (SRM). Cytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn cyn hynny ar y graddau y gellid defnyddio polisïau caffael cyhoeddus i atal cig wedi'i heintio o stociau ymyrraeth rhag mynd i'r gadwyn fwyd.

***Rhaglenni Adfywio Cymunedau Cefn Gwlad***

3.7 Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- ystod a chymhlethdod y mentrau a'r rhaglenni sydd ar waith i fynd i'r afael ag adfywio cymunedol, ac yn arbennig yr amryw helaeth o ffynonellau ariannu;
- gweinyddiaeth Rhaglenni Adfywio Cymunedau Cefn Gwlad;
- rôl yr Arsyllfa Wledig ac i ba raddau y byddai'n dyblygu'r gwaith y mae Awdurdod Datblygu Cymru'n ei wneud;
- yr angen am ddiffiniad eang o gymunedau gwledig;
- pwysigrwydd strategaeth farchnata effeithiol i hyrwyddo'r rhaglenni a hybu ymwybyddiaeth mewn cymunedau gwledig;
- posibiliadau defnyddio arian Rhaglenni Adfywio Cymunedau Cefn Gwlad yn arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau eraill.

3.8 Ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

- roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn i'r Awdurdod reoli'r Rhaglen Adfywio Cymunedau Cefn Gwlad ar draws ei swyddfeydd rhanbarthol;
- diben yr Arsyllfa Wledig fyddai casglu gwybodaeth, nodi anghenion ymchwil cefn gwlad a chomisiynu rhagor o ymchwil petai angen. Byddai'n cael ei rheoli ar ran y Cynulliad a byddai proses dendro'r contract yn cychwyn cyn hir;
- byddai cymunedau yn y 9 awdurdod lleol a oedd yn wledig gan mwyaf ac ardaloedd gwledig Sir y Fflint, Wrecsam a Bro Morgannwg yn gymwys ar gyfer y rhaglen;
- byddai'r broses fidio'n mynd ati i nodi a meithrin gallu mewn partneriaethau lleol. Yr ail gam fyddai gwahodd bidiau ar gyfer prosiectau penodol. Gan ei bod yn rhaglen a ariennir yn gyfan gwbl gan y Cynulliad, gellid ei defnyddio'n arian cyfatebol ar gyfer adnoddau cronfeydd strwythurol Ewrop.

***Tir Gofal***

3.9 Nododd y Pwyllgor bod ystod ddaearyddol ymgeiswyr Tir Gofal yn adlewyrchu'n rhannol yr anawsterau sy'n wynebu'r sector llaeth o ran defnyddio'r cynllun. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru i fynd i'r afael â hyn.

***Coedwig Caerffili***

3.10 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r goedwig yn cael ei rheoli er budd y gymuned drwy wella mynediad i'r cyhoedd a chynnig cyfleoedd o ran iechyd ac addysg.

***Rali Cymru Prydain***

3.11 Cytunodd y Gweinidog bod ralïau ceir a digwyddiadau beicio mynydd yn cynnig cyfleoedd economaidd buddiol i gefn gwlad Cymru.

**Pwyntiau Gweithredu**

Bydd y Gweinidog yn darparu nodyn i'r Pwyllgor ar ddeddfwriaeth Ewrop sy'n rheoli allforio anifeiliaid byw ar hyn o bryd – **Y Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid.**

Bydd y Gweinidog yn cyflwyno papur i'r Pwyllgor, ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Cig Eidion, ar fesurau'r UE i fynd i'r afael â chig ymyrraeth sy'n cynnwys Deunydd Risg Penodol (SRM). Cyn hynny byddai'n paratoi nodyn ar y graddau y gellir defnyddio polisïau caffael cyhoeddus i atal cig wedi'i heintio o stociau ymyrraeth rhag mynd i'r gadwyn fwyd – **Y Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid.**

**Eitem 4: Premiwm Blynyddol Defaid: ARD 16-02(p3)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor gefndir yr oedi a fu gyda'r taliadau SAP yn sgil cyflwyno system gyfrifiadurol newydd.

4.2 Codwyd y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- cyfarfu swyddogion yr Adran Amaethyddiaeth â chynrychiolwyr yr NFU a'r FUW ym mis Medi i drafod risgiau cyflwyno'r system daliadau newydd a chwrs tebygol gwneud y taliadau;
- er bod y taliadau bellach wedi'u gwneud o fewn y cyfnod penodedig, cawsant eu gwneud yn hwyrach na'r disgwyl;
- roedd 4 ffermwr wedi gofyn i'r Adran Amaethyddiaeth wneud y taliadau â llaw;
- byddai risgiau annatod unrhyw system gyfrifadurol newydd yn parhau ar gyfer taliadau cynlluniau eraill yn nes ymlaen. Roedd rhai o'r Aelodau'n pryderu y gallai canolbwyntio ar daliadau SAP beri oedi gyda'r cynlluniau eraill;
- gwrthododd y Gweinidog yr awgrym bod disgwyliadau'r ffermwyr ynghylch pryd y byddent yn derbyn y taliadau wedi'u codi'n afrealistig.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd yr NFU a'r FUW i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i leisio'u barn am hyn, ond dim ond pe gallai'r undebau nodi gwersi arwyddocaol y dylid eu dysgu at y dyfodol.

**Pwynt Gweithredu**

Bydd y Pwyllgor yn gwahodd yr NFU a'r FUW i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i leisio'u barn am hyn, ond dim ond os gall yr undebau nodi gwersi arwyddocaol y dylid eu dysgu at y dyfodol - **Ysgrifenyddiaeth**.

**Eitem 5: Tir comin: ARD 16-02(p4)**

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor gefndir datblygu deddfwriaeth arfaethedig ar gyfer tir comin.

5.2 Nododd yr Aelodau bod cais wedi'i wneud am ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru'n unig, ond bod y bwriad i ddeddfu ar gyfer Cymru a Lloegr yn golygu y byddai'r Mesur wedi bod yn rhy eang i'r Cynulliad allu darparu adnoddau ar ei gyfer.

5.3 Cytunodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd am hynt y gweithgor sy'n datblygu cynigion penodol. Cytunodd y Gweinidog hefyd i ofyn am sylwadau'r Pwyllgor ynghylch cynnwys unrhyw ddogfen ymgynghori yn y dyfodol, a hynny cyn ei chyhoeddi.

**Pwyntiau Gweithredu**

Bydd y Gweinidog yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd am hynt y gweithgor sy'n datblygu cynigion penodol - **Y Gweinidog, yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio.**

Bydd y Gweinidog yn darparu papur ar y ddogfen ymgynghori arfaethedig i roi cyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau am y cynnwys cyn ei chyhoeddi - **Y Gweinidog, yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio.** .

**Eitem 6: Ymchwiliad y Pwyllgor i gynlluniau amaeth-amgylcheddol: ARD 16-02(p5)**

6.1 Rhoddodd Dr Mike Christie o'r Sefydliad Astudiaethau Gwledig yn Aberystwyth dystiolaeth lafar i ymchwiliad y Pwyllgor. Soniodd Dr Christie am ddwy astudiaeth; y naill ar fanteision economaidd ac amgylcheddol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru a'r llall ar flaenoriaethau'r cyhoedd o ran manteision y cynlluniau hynny.

6.2 Roedd yr astudiaeth gyntaf yn argymell rhoi pedair gwaith yn fwy o adnoddau i gynllun Tir Gofal er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar fioamrywiaeth. Doedd Dr Christie ddim yn gwybod am unrhyw waith ymchwil sy'n cymharu manteision economaidd Tir Gofal â mathau eraill o gymorth datblygu economaidd.

6.3 Eglurodd Dr Christie nad oedd gwerthoedd ariannol y manteision yn yr astudiaeth o flaenoriaethau'r cyhoedd yn ddibynadwy mewn termau absoliwt. Cryfder yr astudiaeth oedd ei bod yn egluro'r gwerth cymharol yr oedd y cyhoedd yn ei weld i'r gwahanol fanteision. O ddadansoddi hyn yn fwy manwl, gellid gweld bod y gwerthoedd cymharol hyn yn amrywio yn ôl grwp cymdeithasol. Cafodd y manteision allweddol a gynhwyswyd yn yr astudiaeth eu dewis drwy gynnal grwpiau ffocws cyn yr astudiaeth.

6.4 Teimlai Dr Christie y dylai egwyddor cynlluniau ffermydd cyfan barhau gan fod hynny'n hybu gwelliannau amgylcheddol i'r eithaf. Roedd angen cynllun haen is hefyd a fyddai ar gael i bob ffermwr sy'n cyrraedd safonau amgylcheddol gofynnol.

**Eitem 7: Ymchwiliad y Pwyllgor i gynlluniau amaeth-amgylcheddol: ARD 16-02(p6)**

7.1 Rhoddodd Huw Davies o'r Comisiwn Coedwigaeth dystiolaeth lafar i ymchwiliad y Pwyllgor.

7.2 Dywedodd mai Tir Gofal oedd un o'r ychydig gynlluniau amaeth-amgylcheddol a oedd wedi llwyddo i gynnwys manteision o ran coedwigaeth. Er bod cynlluniau coedwigaeth yn dal i gael eu gweinyddu ar wahân, roedd Tir Gofal yn cynnig i ffermwyr unigol broses ymgeisio rwydd. Roedd y Comisiwn Coedwigaeth yn gobeithio y câi un cynllun grant coedwigaeth yng Nghymru ei gynnwys ym mhob cynllun amaeth-amgylcheddol. Dylai'r cynllun roi blaenoriaeth i annog ceisiadau rheoli grwp megis yr un ym Mhontbren.

7.3 Roedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru'n ffyddiog y gallai ymateb i adolygiad canol tymor y PAC ond roedd yn pryderu ynghylch yr effaith y gallai newidiadau i arferion rheoli ffermydd ei chael ar goedwigaeth. Roedd systemau cymorth amgylcheddol yn hanesyddol wedi annog cynnih coetiroedd i'w pori heb reolaeth er mwyn i'r tir fod yn gymwys ar gyfer lwfansau. Gyda'r 'datgysylltu' sydd ar y gweill ar gyfer cymorth amaethyddol, efallai y gellid rheoli tir yn y ffordd orau heb i hynny effeithio ar

daliadau cymorth i ffermwyr. Fodd bynnag, mae hynny'n dibynnu ar gynnwys coetir (a chynefinoedd lled-naturiol) yn y diffiniad o 'gadw tir mewn cyflwr amaethyddol da'. Bydd hynny'n hanfodol er mwyn gallu rheoli coetiroedd fferm ledled Cymru.

7.4 Gan fod y rhan fwyaf o ffermydd yn cynnwys rhywfaint o goetir, roedd y Comisiwn Coedwigaeth am i ddiogelu'r adnodd hwnnw gael ei gynnwys yn system sgorio'r cynllun amaeth-amgylcheddol sylfaenol.

7.5 Roedd hyrwyddo defnyddio sgil-gynhyrchion coedwigaeth a defnyddio coed mewn gwaith adeiladu yn bwysig i ddatblygiad y sector. Roedd y Fforwm Coetiroedd ac eraill yn bwrw ymlaen â hyn, drwy ddod o hyd i gyfleoedd mewn marchnad ryngwladol sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

8.1 Cymeradwywyd y cofnodion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Tachwedd 2002**